Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2019 – 2022

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

# 2019 – 2022

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# CYNNWYS

RHAGAIR . . . 3

1 CYFLWYNIAD . . . 4

2 EIN DATGANIAD CENHADAETH . . . 7

3 AMDANOM NI . . . 8

4 CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH . . . 10

5 DARPARU GWASANAETHAU I'R CYHOEDD . . . 13

6 EIN HWYNEB CYHOEDDUS . . . 17

7 GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN . . . 23

8 Y GYMRAEG A'N GWEITHLU . . . 27

ATODIAD A – SYSTEM BLAENORIAETHU CYFIEITHU . . . 29

ATODIAD B – SAFONAU GWASANAETH YR UNED IAITH GYMRAEG . . . 31

# RHAGAIR




Mae'n bleser cyflwyno'r fersiwn newydd hon o'n Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n adeiladu ar seiliau ein Cynllun blaenorol. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn ein galluogi ni i ddatblygu gwasanaeth dwyieithog gwell fyth i'r dyfodol, a darparu dewis iaith gwirioneddol weithredol ar gyfer ein defnyddwyr yng Nghymru.

Mae cryn dipyn o newid wedi bod ers cyhoeddi ein hail Gynllun Iaith Gymraeg yn 2008, o ran cylch gwaith a swyddogaeth yr Asiantaeth ac yn y byd ehangach gyda datblygiadau mewn cyfathrebu digidol a newidiadau sylweddol eraill. Mae'r Cynllun newydd hwn yn cwmpasu'r newidiadau hynny, ac yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd popeth a wnawn wrth gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn ni'n parhau i gefnogi ein Huned Iaith fewnol yn llawn i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n staff.

Yn y pen draw, bydd yr Asiantaeth yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, fel yr amlinellir ym Mesur y Gymraeg 2011. Mae'r broses o ddod o dan y Safonau eisoes wedi dechrau yn yr Asiantaeth oherwydd y buom ni'n ddarostyngedig i broses ymchwilio'r Comisiynydd. Byddwn ni'n gwybod mwy am ein gofynion ar ôl i Weinidogion Cymru bennu'r rheoliadau ar ein cyfer. Yn y cyfamser, bydd y camau rydym wedi'u cymryd yn rhan o'r Cynllun newydd hwn yn ein paratoi i fodloni'r gofynion hynny yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun yn berthnasol ar draws yr Asiantaeth, ac mae gennym ni oll gyfrifoldeb i fod yn gyfarwydd â'r gofynion a amlinellir ynddo. Byddwn ni'n mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarparwn yn rhan o'n gwaith i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.



**Jason Feeney CBE**
**Prif Weithredwr, Asiantaeth Safonau Bwyd**

# 1 CYFLWYNIAD

## Deddf yr Iaith Gymraeg

**1.1** Mae Deddf Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg ym mywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

**1.2** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi Cynllun Iaith Gymraeg, yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

## Pwrpas y Cynllun hwn

**1.3** Dyma ddiwygiad i'r ail Gynllun a baratowyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Cafodd ein Cynllun blaenorol ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt ym mis Mehefin 2008.

**1.4** Mae'r Cynllun yn disgrifio sut y byddwn ni'n parhau i weithredu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn briodol dan yr amgylchiadau, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Nod y Cynllun yw caniatáu i unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau'r ASB yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol nhw.

**1.5** Mae rhagor o wybodaeth am gwmpas a phwrpas Cynlluniau Iaith Gymraeg ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/Cynllun%20iaith.aspx

## Cwmpas y Cynllun hwn

**1.6** Mae'r Cynllun hwn yn cwmpasu'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau yn ogystal â chyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Daw cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn cwmpas ystyr y term 'cyhoedd'. Ar wahân i'r rhai a enwir uchod, nid ydyw, serch hynny, yn cynnwys personau sy'n gweithredu mewn capasiti sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad i hyn, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd pan fônt yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

**1.7** Mae'r Cynllun hwn hefyd yn amlinellu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau i'n staff, i hyrwyddo

a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, gan wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn allanol.

## Mesur y Gymraeg

**1.8** Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[1] yr iaith Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru, ac mae'r Cynllun hwn yn cydnabod hyn.

**1.9** Cyflwynodd y Mesur safonau statudol i ddisodli Cynlluniau Iaith Gymraeg, a bydd hi'n ofynnol i sefydliadau fel yr ASB gydymffurfio â safonau ymddygiad penodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Nes y daw safonau o'r fath yn weithredol yn yr Asiantaeth, byddwn ni'n parhau i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn adolygu ein Cynllun presennol i gryfhau ei ddarpariaethau.

**1.10** Hefyd, sefydlodd Adran 113 o'r Mesur hawliau a rhyddidau newydd i ddefnyddwyr y Gymraeg. Un o'r rhyddidau hynny yw'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Rydym ni'n ymrwymedig i sicrhau yr arferir yr hawl hon yn yr Asiantaeth, ac nad amherir ar hawl unigolyn (gan gynnwys staff) i ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhywun arall.

**1.11** Ni fydd yr ymrwymiadau a wneir o fewn y Cynllun hwn yn amharu ar y gwaith o weithredu gofynion safonau'r Gymraeg yn y dyfodol nac yn atal ein cyrff noddedig rhag cydymffurfio â nhw.

## Cymraeg 2050

**1.12** Byddwn ni'n sicrhau bod yr ymrwymiadau o fewn y Cynllun hwn yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050, sef gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn yng Nghymru, gan alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau yn ddwyieithog, a'n staff i ddefnyddio'r Gymraeg bob cyfle a gânt.




## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**1.13** Mae'r ASB hefyd yn ystyried y nodau lles a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mhob un o'i chamau gweithredu-yn benodol:

*'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud pethau gwahanol, a lle gall llawer o bobl siarad Cymraeg'*

---

1 http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh

**1.14** Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd yr Asiantaeth yn chwarae rhan yn y nod lles penodol hwnnw, gan sicrhau cyfle a hawl i ddinasyddion Cymru ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Paratowyd y Cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf.

Daeth i rym ar 15 Mawrth 2019.

## 2 EIN DATGANIAD CENHADAETH

Byddwn ni'n rhoi'r defnyddiwr wrth wraidd popeth a wnawn ac yn darparu dewis iaith gweithredol i ddinasyddion yng Nghymru, gan ddarparu'r gwasanaeth a'r cyngor gorau o ran diogelwch bwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# 3 AMDANOM NI

**3.1** Rydym ni'n adran annibynnol o'r Llywodraeth sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

## Ein Pwrpas

**3.2** Rydym ni'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel, ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

## Ein Gwerthoedd

**3.3** Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu'r weledigaeth hon, a'n gwerthoedd craidd:

- Rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- Bod yn agored a thryloyw
- Seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth

## Yr hyn a wnawn

**3.4** Fel adran o'r Llywodraeth, rheoleiddiwr annibynnol a chorff diogelu defnyddwyr, rydym ni'n defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn gweithio gyda'r canlynol:

- awdurdodau lleol ac adrannau gweithrediadau i'w helpu i gymryd camau gweithredu cymesur, amserol a chadarn
- busnesau, o'r fferm i'r fforc, i'w helpu nhw i ddiogelu defnyddwyr
- defnyddwyr, i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chyfoes i'w helpu nhw i wneud dewisiadau bwyd diogel a gwybodus

## Ein Strategaeth 2015-2020 – Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo

**3.5** Mae ein Strategaeth, Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo 2015-2020, yn canolbwyntio ar ein pwrpas a'n cenhadaeth.

**3.6** Mae'n ddyletswydd arnom i ddefnyddio ein harbenigedd a'n dylanwad fel y gall pobl ymddiried bod y bwyd y maent yn ei brynu a'i fwyta yn ddiogel ac yn onest. Mae ein strategaeth yn cydnabod bod heriau cynyddol o amgylch diogelwch bwyd, fforddiadwyedd, sicrwydd cyflenwad bwyd a chynaliadwyedd. Mae ein strategaeth yn amlinellu ein diben a'n cyfrifoldebau, a rolau a chyfrifoldebau eraill, o ran goresgyn yr heriau hynny.

## Atebolrwydd Seneddol yng Nghymru

**3.7** Caiff yr ASB yng Nghymru ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei harwain gan Gyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr ASB. Mae'r ASB yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei gweithgareddau yng Nghymru, a hynny drwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ASB hefyd yn cynghori'r Gweinidog dan sylw ar

bolisi a deddfwriaeth mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) yn ein cynghori ynghylch polisi bwyd mewn perthynas â Chymru. Mae'n ofynnol i ni ystyried cyngor y Pwyllgor wrth gyflawni ein swyddogaethau neu wrth roi cyngor i Weinidogion.

## Amrywiaeth a Chydraddoldeb

**3.8** Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal a chael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu a bwlio o bob math. Rydym ni'n hyrwyddo amgylchedd gweithio da a chytûn lle caiff pawb eu trin â pharch a lle na fydd unrhyw un yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu o unrhyw fath.

**3.9** Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn ni'n sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i arfer dewis iaith wrth ymgysylltu â'r ASB. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'n ymrwymo i ddiogelu a sicrhau hawliau unigolion (gan gynnwys staff) sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, ac i wneud hynny heb ymyrraeth.

## Cwynion neu Ymholiadau

**3.10** Yn y lle cyntaf, bydd cwynion sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaeth Cymraeg yr ASB yn cael eu gwneud i'r tîm yr arweiniodd ei weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd at y gŵyn.

**3.11** Os nad ystyrir bod yr ymateb i'r gŵyn yn foddhaol, neu os oes gan aelod o'r cyhoedd ymholiad neu awgrym ar gyfer gwelliant yn benodol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg, dylent gysylltu â'r canlynol:
Cydlynydd Cwynion yr ASB
FCT@food.gov.uk
020 7276 8829

**3.12** Os yw'r achwynydd dal yn anfodlon ar y gwasanaeth Cymraeg, gellir cyfeirio cwynion at Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y weithdrefn hon ar dudalen Cyflwyno Cwyn ar wefan y Comisiynydd. Byddwn ni'n cydweithredu â Chomisiynydd y Gymraeg i ddatrys cwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

**3.13** Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am broses gwyno'r Asiantaeth drwy: https://www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/feedback/cwynion-a-sylwadau

# 4 CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

## Polisïau, Deddfwriaeth a Mentrau

**4.1** Mae ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun hwn. Maent yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac yn sicrhau y gall y cyhoedd yng Nghymru, a staff yr ASB yng Nghymru, ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Pan fyddwn ni'n cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd dan arweiniad sefydliadau eraill, gwnawn hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun hwn.

**4.2** Byddwn ni'n sicrhau'r canlynol:

- wrth ddatblygu polisïau a mentrau newydd, neu ddiwygio'r rhai presennol, byddwn ni'n ystyried unrhyw effeithiau posibl (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- asesu effeithiau posibl unrhyw bolisïau a mentrau newydd/ diwygiedig. Bydd yn rhan o asesiad effaith cyfunol lle bydd cwestiynau penodol yn cael eu gofyn am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd, polisïau a chodau ymarfer yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg, ac yn gofyn i staff ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf
- bod ein dogfennau ymgynghori yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisïau, y mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu
- ymgynghori â'r Uned Iaith Gymraeg am arweiniad a chyngor pan fo angen, i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

## Darparu Gwasanaethau

**4.3** Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- sicrhau bod ein gwasanaethau a'n hadnoddau ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy fodloni'r gofynion a'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Cynllun hwn i sicrhau dewis iaith gweithredol i ddefnyddwyr yng Nghymru



- rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fo gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog, a mynd ati i hyrwyddo'r gwasanaethau hynny. I wneud hyn, byddwn ni'n defnyddio ein cyfryngau cymdeithasu a llwyfannau digidol eraill ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o sicrhau bod ein negeseuon yn cyrraedd ein cynulleidfa ddwyieithog

## Ein Swyddogaethau Rheoleiddio a Gwasanaethau a Gyflenwir ar ein Rhan gan Drydydd Partïon

**4.4** Mae unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio, dyfarnu trwyddedau a rhoi caniatâd o fath arall.

**4.5** Os na all trydydd parti gynnig gwasanaeth Cymraeg, bydd yn ymrwymo o'r cychwyn cyntaf i gydweithio'n llawn gyda'r Uned Iaith Gymraeg, a fydd yn sicrhau'r gwasanaeth dwyieithog hwn yn fewnol. Byddwn ni'n cynorthwyo ac yn rhoi arweiniad i drydydd partïon er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn glir ar hyn.

**4.6** Os yw trydydd parti yn darparu gwasanaeth ar ein rhan, bydd y gwasanaeth a ddarperir i'r defnyddiwr dan sylw o'r un safon o ran y Gymraeg ag unrhyw wasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol gennym ni. Byddwn ni'n sicrhau gallu trydydd parti i lynu at yr egwyddor hon cyn dyfarnu contract, wrth sefydlu'r contract ac wrth fonitro'r contract.

**4.7** Bydd dogfennau tendro, contractau a chytundebau yn ei gwneud yn glir i drydydd partïon na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn ni'n monitro bod y gwasanaethau a ddarperir gennym ni a gan drydydd partïon yn cyd-fynd â'r ymrwymiad uchod.

## Safonau Ansawdd

**4.8** Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen.

**4.9** Gosodir y Gymraeg mewn man lle mae hi'n debygol o gael ei darllen/ defnyddio gyntaf. Mae hyn fel arfer yn golygu gosod y Gymraeg ar yr ochr chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol.

## Dyfarnu Grantiau a Benthyciadau

**4.10** Pan fyddwn ni'n dyfarnu grantiau, benthyciadau a chymorth ariannol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau sydd i'w cyflawni yng Nghymru, byddwn ni'n cynnwys amodau o ran defnyddio'r Gymraeg. Wrth ymgynghori â phartïon perthnasol (awdurdodau lleol er enghraifft) ar argaeledd dyfarniadau ariannol o'r fath, byddwn ni'n gwneud hynny yn ddwyieithog.

## Cynhyrchu / Diweddaru Systemau Technoleg Gwybodaeth

**4.11** Yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu technoleg a'r iaith Gymraeg fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg, byddwn ni'n ystyried ac yn sicrhau'r canlynol:

*'Rhaid i ryngwynebau, adnoddau, cynnwys a chynnyrch Cymraeg fod ar gael yn hwylus, heb ffrithiant, heb fod yn rhaid gofyn amdanynt. Dylai profiadau defnyddwyr y Gymraeg hwyluso darganfod cynnwys Cymraeg.'*

Bydd hyn yn gyson ym mhob agwedd ar gynhyrchu a diweddaru systemau TG yr ASB.

**4.12** Wrth ddatblygu systemau newydd, byddwn ni hefyd yn ystyried cynnwys Ystyriaethau Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd.

# 5 DARPARU GWASANAETHAU I'R CYHOEDD




## Dewis Iaith

**5.1** Rydym ni'n rhoi'r dewis i'r cyhoedd yng Nghymru ddelio â'r Asiantaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

**5.2** Gall y cyhoedd ddewis ymgymryd â'u holl fusnes gyda ni yn Gymraeg, gan gyfathrebu yn ysgrifenedig ac ar lafar.

## Gohebiaeth

### Ysgrifenedig – Llythyrau, negeseuon e-bost a gohebiaeth trwy ein cyfryngau cymdeithasu

**5.3** Byddwn ni'n sicrhau:

- ein bod yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan gynnwys deunydd atodol fel ffurflenni, taflenni gwybodaeth ac ati
- byddwn ni'n ateb unrhyw gyfathrebiadau a ddaw i law yn Gymraeg drwy'r Gymraeg, ac mae ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un peth yn Gymraeg ac yn Saesneg
- pan fyddwn ni'n cychwyn gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, mae'r ohebiaeth yn ddwyieithog (oni bai ein bod yn ymwybodol o'u dewis iaith)
- bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn cael ei chyhoeddi yn ôl dewis iaith cychwynnol yr unigolyn/sefydliad
- anfonir gohebiaeth safonol neu gylchlythyr yn ddwyieithog
- bydd gohebiaeth ar gael yr un pryd yn y ddwy iaith
- bydd llofnodion e-bost, ymwadiadau, negeseuon 'allan o'r swyddfa' ac unrhyw wybodaeth safonol arall a gyflenwir gan staff ASB Cymru yn ddwyieithog (bydd geiriad yn cael ei ddarparu er mwyn helpu staff)
- os ydym ni'n cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o gyfathrebiad, byddwn ni'n trin y fersiwn Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg (er enghraifft cynnwys llofnod electronig, logos, gwybodaeth cyfryngau cymdeithasu). Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyfeiriadau post Cymraeg wrth anfon llythyrau yn Gymraeg[2]

2 Mae'r ASB yn sefydliad 'Digidol yn Bennaf', a chaiff llythyrau eu hanfon yn bennaf trwy e-bost.

**5.4** Mae'r ASB wedi datblygu system (llwyfan Hwyluso Cyfathrebu) ar gyfer awdurdodau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb sy'n galluogi tanysgrifwyr i wneud dewis iaith. Gellir cael cyfathrebiadau yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

## Cyfathrebu dros y ffôn

**5.5** Rydym ni'n darparu dewis iaith i'r rheiny sy'n cysylltu ag ASB Cymru dros y ffôn, fel a ganlyn:

- mae'r prif linell ffôn yng Nghymru wedi'i staffio gan aelod dwyieithog o staff gweinyddol sy'n ateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Dyma'r unig rif sydd ar gael i aelodau cyffredinol o'r cyhoedd sy'n dymuno cysylltu â'r ASB yng Nghymru
- bydd galwadau yn Gymraeg gan aelodau'r cyhoedd i'r rhif hwn ar gyfer timau penodol yn cael eu trosglwyddo i aelodau Cymraeg y timau hynny
- os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i ddelio â'r ymholiad, bydd y galwr yn cael dewis rhwng siaradwr Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted ag y bo modd, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg yn ysgrifenedig
- gyda holl linellau ffôn eraill ASB Cymru, bydd staff yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog syml (yn bennaf 'Bore da' neu 'Prynhawn da') ac os nad yw'r alwad ar eu cyfer nhw'n bersonol, byddant yn cynnig dewis iaith trwy ddilyn y camau a nodir uchod
- pan fyddwn ni'n cychwyn cyswllt dros y ffôn gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, bydd hyn yn cael ei wneud yn ddwyieithog (oni bai ein bod yn ymwybodol o'u dewis iaith)
- petai'r ASB yn datblygu system awtomatig ar gyfer delio â galwadau yng Nghymru yn y dyfodol, bydd y system yn darparu dewis iaith gweithredol ac yn darparu gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith
- mae'r holl negeseuon llais (llinell dir a symudol) yn cael eu recordio'n ddwyieithog, gyda chefnogaeth gan yr Uned Iaith Gymraeg

## Cyfarfodydd Cyhoeddus yng Nghymru

**5.6** Rydym ni'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob cyfarfod yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd (cyfarfodydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn bennaf). Mae gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.

**5.7** Rydym ni'n annog cyfraniadau yn Gymraeg trwy hysbysu'r rhai sy'n bresennol:

- bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg
- bod yna wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael sy'n caniatáu iddynt wneud hyn

**5.8** Pan fo cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd yng Nghymru, rydym ni'n:

- darparu agendâu, papurau a gwybodaeth arall yn ddwyieithog
- darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (Cymraeg i Saesneg)
- cyhoeddi cofnodion neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog

## Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

**5.9** Pan fyddwn ni'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn ni'n sefydlu dewis iaith cyn gynted â phosibl gyda threfnydd y cyfarfod. Byddwn ni'n sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd lle mae'r Gymraeg yn ddewis iaith. Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys addas ar gael, byddwn ni'n cynnig y dewis o gynnal y cyfarfod yn Saesneg neu drwy ohebu yn Gymraeg.

**5.10** Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ymgysylltu ag Ysgolion

**5.11** Wrth gynnal ein rhaglen ymgysylltu mewn ysgolion ledled Cymru, gan gyflwyno negeseuon allweddol o ran diogelwch bwyd i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, byddwn ni'n sicrhau bod y Gymraeg â'r Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd ac argaeledd y negeseuon a'r deunyddiau. Byddwn ni'n rhoi dewis iaith i ysgolion wrth ymgysylltu â'r Asiantaeth yng Nghymru, mewn gohebiaeth ac yn y ddarpariaeth addysgol ei hun.



**5.12** Bydd yr un peth yn wir am ein cyfraniad at ddigwyddiadau 'Crucial Crew' ledled Cymru. Bydd deunyddiau a chynnwys ar gyfer diwrnodau Cymraeg yn gyfartal â'r rhai Saesneg o ran eu dyluniad a'u cyflwyniad.

## Ymgysylltu Arall â'r Cyhoedd yng Nghymru

**5.13** Wrth gynnal arolygon cyhoeddus, byddwn ni'n sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Gofynnir i ymatebwyr a ydynt am ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

**5.14** Os cynhelir arolygon cyhoeddus ar ein rhan gan gontractiwr, byddant yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a amlinellir yn y Cynllun hwn. Os na allant gynnig gwasanaeth Cymraeg, byddant yn trafod ag Uned Iaith Gymraeg yr ASB o'r cychwyn cyntaf i sicrhau gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

**5.15** Byddwn ni'n sicrhau:

- pan fyddwn ni'n trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, ein

bod ni'n hysbysebu'r digwyddiadau hyn yn ddwyieithog ac yn anfon gwahoddiadau ac agendâu yn ddwyieithog. Byddwn ni'n asesu'r angen i ddarparu cynnwys ac adnoddau eraill yn y Gymraeg fesul achos ac yn unol â'n system sgorio

- bod unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol yr ydym yn eu paratoi i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog

# 6 EIN HWYNEB CYHOEDDUS

## Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebu

**6.1** Byddwn ni'n cynnal pob ymgyrch hyrwyddo yng Nghymru yn ddwyieithog, mewn modd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal. Cynhyrchir yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei gosod mewn man lle mae hi'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Os yw'r amgylchiadau yn mynnu bod gofyn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae'n rhaid i'r ddwy fersiwn fod o'r un maint, amlygrwydd ac ansawdd, rhaid iddynt fod ar gael yr un pryd a rhaid iddynt fod yr un mor hygyrch.

**6.2** Mae hysbysebion mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a gaiff eu dosbarthu yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar wahân, mae'r ddwy fersiwn o'r un maint, amlygrwydd ac ansawdd, ac mae'r ddwy fersiwn ar gael yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, mae hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

**6.3** Wrth osod hysbysebion neu erthyglau hysbysebu yn ystod ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, dylid adlewyrchu cynnwys o'r fath yn gymesur mewn cyhoeddiadau Cymraeg perthnasol, ar-lein ac ar ffurf gyhoeddedig (er enghraifft Golwg, Lleol, BBC Cymru Fyw, Golwg 360) i sicrhau y rhoddir sylw teg i'r ddwy iaith.




**6.4** Caiff unrhyw weithgarwch hyrwyddo rhyngweithiol trwy'r cyfryngau cymdeithasu[3], teledu a radio (sy'n cael ei dargedu at gynulleidfaoedd yng Nghymru) ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ymgyrchoedd sy'n ymddangos ar lwyfannau Cymraeg yn Gymraeg. Byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg gan nad yw hyn yn cynnig profiad cyfartal i'r defnyddiwr.

3 Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl talu i hybu negeseuon ar Twitter gan nad yw'r Gymraeg yn un o'i ieithoedd cydnabyddedig

## Cynnwys Fideo

**6.5** Wrth ddatblygu cynnwys fideo ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac ati, byddwn ni'n sicrhau:

- os yw'r deunydd yn cynnwys darn o ffilm/animeiddiad â throslais, byddwn ni'n darparu troslais Cymraeg ac yn creu graffigwaith Cymraeg cysylltiedig i greu fersiwn Gymraeg ar wahân sy'n adlewyrchu cynnwys y Saesneg yn llawn o ran edrychiad, teimlad a neges. Nid yw isdeitlau Saesneg yn ddewis gyda chynnwys o'r fath
- os yw'r fideo yn cynnwys swyddog neu arbenigwr yr ASB yn siarad yn uniongyrchol i'r camera, ac nad oes siaradwr Cymraeg cyfatebol i greu cynnwys Cymraeg, dim ond wedyn y gellir ystyried defnyddio isdeitlau Cymraeg. Dylai cydweithwyr yn y tîm cyfathrebu weithio gyda'r Uned Iaith Gymraeg fesul achos er mwyn sicrhau'r canlyniad a'r cynnwys gorau ar gyfer defnyddwyr Cymraeg. Bydd cynnwys pwrpasol yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg lle bo hynny'n berthnasol

## Arddangosfeydd neu Stondinau

**6.6** Yng Nghymru, bydd yr holl adnoddau sydd i'w harddangos mewn arddangosfeydd neu stondinau yn ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith yr un mor weladwy a hygyrch â'i gilydd, a dylid gosod y Gymraeg mewn man lle mae hi'n debygol o gael ei darllen gyntaf. Bydd trefniadau staffio yn caniatáu i ni ddelio ag ymholiadau yn y ddwy iaith a bydd yn adlewyrchu natur, lleoliad a phwnc y digwyddiad. Anogir staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg i wisgo bathodynnau 'Iaith Gwaith'.

## Cyhoeddiadau (digidol neu fel arall)

**6.7** Byddwn ni'n defnyddio ein system sgorio fewnol i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi cyhoeddiadau a deunydd yn Gymraeg.

**6.8** Mae cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i daflenni gwybodaeth, tystysgrifau, dogfennau ymgynghori, posteri, canllawiau, cardiau i'w cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasu, pecynnau cyfathrebu a chylchlythyrau. Mae dogfennau neu eitemau a roddir ar wefannau neu sydd ar gael yn electronig hefyd wedi'u cynnwys, waeth a ydynt yn bodoli mewn fformat copi caled ai peidio.

**6.9** Os yw cynulleidfa darged cyhoeddiad yn cynnwys cynulleidfa yng Nghymru, byddwn ni'n:

- cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ddwyieithog ar gyfer ASB Cymru. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn ni'n cyhoeddi dwy fersiwn ar wahân
- lle caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân (lle byddai un ddogfen yn rhy hir), dylid sicrhau bod y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd, ar gael yr un pryd ac yr un mor hygyrch

**6.10** Byddwn ni'n hyrwyddo pob cyhoeddiad sydd ar gael yn Gymraeg trwy'r sianelau sydd ar gael i ni (ein

gwefan gyhoeddus a'r cyfryngau cymdeithasu yn bennaf).

## Gwasanaethau Digidol

### • Gwefannau

**6.11** Mae prif wefan yr ASB, www.food.gov.uk/cy, wedi'i datblygu'n ddwyieithog ac mae modd toglo yn uniongyrchol o un iaith i'r llall.

**6.12** Dylid gweithredu unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau pellach i brif wefan yr ASB yn y dyfodol, ac i ficro-wefannau eraill yr ASB, yn ddwyieithog. Dyma'r eithriadau presennol i hyn:

- adroddiadau ymchwil – oherwydd eu hyd, eu natur dechnegol a'r gynulleidfa arbenigol
- adnoddau/gwasanaethau digidol sy'n cael eu treialu
- rhybuddion – oherwydd eu natur frys, fe'u hanfonir yn Saesneg yn unig
- deunydd sy'n berthnasol i Loegr neu Ogledd Iwerddon yn unig

**6.13** Byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw wasanaeth ar-lein i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog, er enghraifft Gwefan Sgoriau Hylendid Bwyd a'r Hyfforddiant Alergedd Ar-lein.

**6.14** Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn ni'n ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg **Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg** a **Chynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru**.

### • Cyfryngau cymdeithasu

**6.15** Rydym ni'n cydnabod bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn digwydd fwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasu. Wrth ddefnyddio'r sianeli hyn i gyfathrebu â'r cyhoedd, bydd yr holl gynnwys a'r negeseuon perthnasol yn cael eu hadlewyrchu'n gyfartal ar y cyfryngau cymdeithasu Cymraeg a Saesneg, sef Twitter a Facebook ar hyn o bryd.

**6.16** Dylai cynnwys (boed yn barhaol neu dros dro), negeseuon ac adnoddau a ddefnyddir ar y cyfryngau cymdeithasu fod yn gyfartal o ran amlygrwydd, ymddangosiad a buddsoddiad (yn ariannol ac fel arall) yn y ddwy iaith.

**6.17** Os oes sianeli Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft Twitter), byddwn ni'n darparu cyswllt uniongyrchol i'r cyfrif Cymraeg o'r cyfrif Saesneg ac yn ymrwymo i hyrwyddo'r sianeli Cymraeg ar sianeli cyfatebol Saesneg.



**6.18** Os byddwn ni'n sefydlu unrhyw sianeli dwyieithog, byddwn ni'n sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn cael ei gyhoeddi fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Hefyd, wrth greu cyfrifon cyfryngau cymdeithasu newydd, byddwn ni'n sicrhau bod enwau'r cyfrifon ar gael yn Gymraeg.

**6.19** Wrth gyhoeddi dolenni mewn cynnwys ar gyfryngau cymdeithasu Cymraeg, byddwn ni'n sicrhau eu bod yn cysylltu ag adnoddau neu wybodaeth Gymraeg (os ydynt yn bodoli), er enghraifft tudalennau ar ein gwefan.

**6.20** Wrth ddefnyddio hashnodau sydd wedi'u datblygu'n fewnol, byddwn ni'n creu hashnod Cymraeg addas ac ymarferol sydd â'r un perthnasedd ac effaith â'r Saesneg. Byddwn ni hefyd yn sicrhau, wrth dagio sefydliadau/partneriaid/rhanddeiliaid eraill, ein bod yn tagio'r cyfrif Cymraeg os oes un ar gael.

**6.21** Dylai unrhyw gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasu Cymraeg adlewyrchu materion sy'n berthnasol yng Nghymru, ac nid adlewyrchiad o gynnwys y Deyrnas Unedig gyfan yn unig. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau, gwyliau a gofynion defnyddwyr sy'n benodol i Gymru.

### • Apiau

**6.22** Nid oes gan yr ASB unrhyw apiau ar hyn o bryd. Pe bai'r sefyllfa hon yn newid, byddwn ni'n rhoi pob ystyriaeth i ddatblygu gwasanaeth Cymraeg, yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

### • Terminoleg

**6.23** Ers ei sefydlu, mae Uned Iaith Gymraeg yr ASB wedi datblygu a mireinio geirfa fewnol o derminoleg diogelwch bwyd. Mae'r eirfa hon wedi ei safoni'n allanol a'i hychwanegu at y Porth Termau Cenedlaethol http://termau.cymru/ a bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr ASB maes o law. Rydym ni'n ymrwymo i ddiweddaru a mireinio'r derminoleg hon yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddefnyddiol ac yn gywir i randdeiliaid, gan sicrhau bod yr ASB yn gosod y safon mewn perthynas â therminoleg diogelwch bwyd Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru:

*'Cefnogaeth hirdymor i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, gan gynnwys corpora, geiriaduron ac adnoddau terminoleg.'*

## Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

**6.24** Byddwn ni'n sicrhau bod pob ffurflen (gan gynnwys ffurflenni digidol a gyhoeddir ar ein gwefannau) a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru:

- ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ddwyieithog neu mewn un lle (ar yr un dudalen ar ein gwefan neu fod modd toglo rhwng un iaith a'r llall)

- pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir), fod y ddwy fersiwn o'r un ansawdd, ar gael yr un pryd, yr un mor hygyrch a bod pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall

## Hunaniaeth Gorfforaethol

**6.25** Mae gennym ni hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Mae ein henw, manylion cyswllt, cyfeiriad gwe, logo, penawdau neu arwyddeiriau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifennu a phethau fel cardiau busnes, penawdau llythyrau, gwahoddiadau, baneri arddangos a gwisgoedd ar gyfer digwyddiadau corfforaethol. Gallwn ddefnyddio brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau sydd wedi'u targedu at siaradwyr Cymraeg yn uniongyrchol.

## Arwyddion yn swyddfa ASB Cymru

**6.26** P'un a ydynt yn cael eu gosod am y tro cyntaf neu'n cael eu cyfnewid, byddwn ni'n sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a dros dro, gan gynnwys arwyddion electronig yn:

- ddwyieithog
- trin testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd (hyd yn oed os ydynt yn arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân)
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gosod mewn man lle mae hi'n debygol o gael ei darllen gyntaf

## Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Recriwtio Staff

**6.27** Bydd yr ASB yn cyhoeddi eitemau newyddion dwyieithog ar ei gwefan ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'n gwasanaethau yng Nghymru, ac unrhyw brif gyhoeddiadau sy'n berthnasol ledled Cymru a Lloegr.

**6.28** Mae hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd Saesneg neu gyfryngau tebyg a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd, p'un a ydynt yn cael eu cynhyrchu fel un fersiwn ddwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, mae hysbysiadau yn Gymraeg yn unig.

## Eitemau Newyddion a Chyswllt â'r Cyfryngau

**6.29** Byddwn ni'n hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru trwy ein cyswllt â'r cyfryngau yng Nghymru.

**6.30** Cyhoeddir straeon newyddion sydd o ddiddordeb i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru ar brif wefan yr Asiantaeth yn ddwyieithog.

**6.31** Caiff eitemau newyddion a gyhoeddir ar ein gwefan sy'n berthnasol i Gymru eu postio'n ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith ar gael yr un pryd.

**6.32** Lle bo modd, byddwn ni'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu trin yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os nad oes arbenigwr addas a pherthnasol ar gael, bydd aelod o'r Uned Iaith Gymraeg yn cynnal y cyfweliad os yw'n briodol, gan ddibynnu ar natur y cais neu'r sianel.

## Rhybuddion Bwyd ac Alergedd

**6.33** Nid yw'r gwasanaeth tanysgrifio i rybuddion ar gael yn Gymraeg oherwydd natur frys yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, bydd rhybuddion yn cael eu rhannu yn Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasu'r Asiantaeth, fel y bo'n briodol.



# 7 GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

## Staffio

7.1 Bydd pob aelod newydd o staff sy'n gweithio yng Nghymru, neu sy'n gweithio ar ddeunydd sy'n berthnasol i Gymru, yn cael sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gydag aelod o'r Uned Iaith Gymraeg fel rhan o'u sesiwn sefydlu. Byddant hefyd yn cael gwybodaeth ychwanegol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, yn arbennig y rhannau hynny sy'n berthnasol i'w gwaith a'u tîm. Bydd yr Uned Iaith Gymraeg hefyd yn sicrhau sesiynau ymwybyddiaeth dilynol ac aml gyda thimau perthnasol.

7.2 Byddwn ni'n parhau i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar ddarpariaethau'r Cynllun Iaith ar gyfer y rheiny sy'n llunio polisi a swyddogion sy'n gweithio y tu allan i Gymru ac yn cynnwys y Gymraeg fel rhan o'r Cynllun Sefydlu Corfforaethol ar gyfer staff newydd.

## Recriwtio

7.3 Er mwyn i'r Cynllun hwn fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r Asiantaeth fod â digon o staff medrus sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog yng Nghymru. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr Cymru, ar y cyd â'r Arweinydd Tîm perthnasol ac Uned Iaith Gymraeg yr Asiantaeth, yw penderfynu a yw swydd yn ASB Cymru yn un lle mae'r Gymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn sicrhau bod swyddi sy'n cael eu hystyried felly yn cael eu llenwi â staff sydd â'r sgiliau digonol.

7.4 Mae'r swyddi Cymraeg hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- dderbynnydd/Swyddog Cefnogi Busnes
- Swyddog Cyfathrebu dwyieithog
- siaradwr Cymraeg ym mhob tîm yng Nghymru i sicrhau gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr
- o leiaf un o'r rheiny a benodir i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

7.5 Ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y disgrifiad swydd. Rhaid ymgynghori â'r Uned Iaith Gymraeg wrth benderfynu a oes angen sgiliau iaith Gymraeg, a pha lefel sydd ei hangen ar gyfer y swydd.

7.6 Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn datblygu fframwaith ar gyfer asesu a phenderfynu ar lefel y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi yn ASB Cymru i'w defnyddio wrth ddatblygu Pecynnau Ymgeiswyr. Bydd y fframwaith hwn yn seiliedig ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd a bydd yn berthnasol i bob tîm yn ASB Cymru. Pan hysbysebir swydd newydd yn ASB Cymru, bydd y rheolwr sy'n recriwtio

yn defnyddio'r fframwaith hwn, mewn cydweithrediad â'r Uned Iaith Gymraeg.

**7.7** Pan ystyrir bod gallu yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi, gydag esboniad.

**7.8** Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried fel un o nifer o alluoedd wrth lenwi swyddi gwag sy'n codi, yn unol â pholisi cyfle cyfartal yr ASB.

**7.9** Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Tîm perthnasol a'r Uned Iaith Gymraeg, yw adolygu a chadw llygad ar swyddi lle mae siaradwr Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun. Mae hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd gall cyfrifoldebau swyddi newid gydag amser yn ôl natur newidiol yr Asiantaeth.

**7.10** Mae'r ASB yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg am unrhyw swyddi gwag sydd wedi'u hysbysebu yng Nghymru. Ym mhob ymarfer recriwtio, bydd pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg yn unol â pholisi cyfle cyfartal yr ASB.

**7.11** Bydd pob disgrifiad swydd, pecyn ymgeiswyr a hysbyseb swydd ar gyfer pob swydd yn ASB Cymru sy'n cael ei hysbysebu'n allanol yn ymddangos yn ddwyieithog ar wefan Civil Service Jobs, o fewn cyfyngiadau'r system gyfredol (nid yw Civil Service Jobs yn hwyluso strwythur dwyieithog ar hyn o bryd). Croesewir ceisiadau am swyddi gwag yn y Gymraeg, ond mae'r broses ymgeisio ar wefan ymgeisio'r Gwasanaeth Sifil yn Saesneg yn unig. Mae hyn y tu allan i reolaeth yr Asiantaeth.

**7.12** Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd iaith y cyfweliad yn adlewyrchu'r anghenion ieithyddol a nodir yng ngofynion y swydd. Os oes gofyniad Cymraeg, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddull priodol. Lle ystyrir bod y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd, bydd o leiaf un aelod o'r panel cyfweld yn siarad Cymraeg.

## Hyfforddiant Iaith

**7.13** Anogir staff ac aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru i ddysgu Cymraeg ac i wella eu gallu yn y Gymraeg (siarad ac ysgrifennu) os oes angen busnes dros wneud hynny. Byddwn ni'n eu cefnogi yn hyn o beth, yn ariannol ac o ran neilltuo amser. Trefnir cyrsiau mewn ymgynghoriad â'r Uned Iaith Gymraeg a fydd yn cynghori ar y lefel ofynnol. Dylid gosod hyn fel amcan perfformiad a dylid cofnodi'r cynnydd mewn Cynlluniau Datblygu Personol/trafodaethau perfformiad.

**7.14** Rhoddir blaenoriaeth yn unol ag anghenion busnes, i'r rheiny sydd â chysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd, sydd mewn gwasanaethau rheng flaen, sydd â rhywfaint o wybodaeth am y Gymraeg neu sy'n ymdrin â siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith.

7.15 Bydd cyfle i holl staff yr ASB elwa ar y darpariaethau canlynol:

- modiwlau Cymraeg ar-lein a ddatblygwyd gan fenter Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru (cyhyd ag y mae'r fenter hon yn parhau)
- darpariaeth arall a gynigir drwy fenter Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru, os yw amser ac adnoddau yn caniatáu
- grŵp dysgwyr mewnol Cymraeg (wedi'i hwyluso trwy lwyfan digidol mewnol)
- hyfforddiant a mentora a ddarperir gan yr Uned Iaith Gymraeg a gwirfoddolwyr eraill sy'n siarad Cymraeg
- cyfeirio at adnoddau effeithiol eraill (fel Say Something in Welsh, a Duolingo)
- rhoi gwybod i staff am gyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i'r gwaith

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

7.16 Rydym ni'n diwallu ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac rydym ni'n gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym ni'n addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

7.17 Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh i'w defnyddio ar gyfer darparu gwybodaeth electronig i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn ni'n ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg **Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg.**

## Gweithio mewn Partneriaeth

7.18 Pan fyddwn ni'n arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

7.19 Pan fyddwn ni'n ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, byddwn ni'n sicrhau bod ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a'n bod yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

7.20 Pan fyddwn ni'n bartner mewn consortiwm, byddwn ni'n annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn ni'n gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

## Bathodynnau ‘Iaith Gwaith’

**7.21** Anogir aelodau o staff yr ASB sy’n siarad neu’n dysgu Cymraeg i wisgo bathodynnau ‘Iaith Gwaith’ Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn i gwsmeriaid allu eu nodi fel siaradwyr Cymraeg (yn bennaf pan fyddant mewn digwyddiadau cyhoeddus). Gall staff hefyd ddefnyddio’r logo ‘Iaith Gwaith’ mewn llofnodion e-bost. Bydd y rhain ar gael gan yr Uned Iaith Gymraeg.

## Monitro

**7.22** Byddwn, o dan gydlyniaeth yr Uned Iaith Gymraeg, yn monitro ein cynnydd wrth gyflwyno’r Cynllun hwn yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflwyno’r Cynllun hwn, fel y bo’n briodol. Bydd Rheolwr y Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolydd o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i drafod gweithrediad y Cynllun.

**7.23** Byddwn ni’n llunio ac yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg, ac unrhyw gorff rheoleiddiol olynol, ar y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Bydd hyn yn amlinellu cynnydd o ran gweithredu’r mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn mewn perthynas â’r amserlenni a’r safonau y cytunir arnynt. Bydd hefyd yn amlinellu nifer a natur unrhyw gwynion neu adborth adeiladol a geir gan y cyhoedd.

**7.24** Yn unol ag egwyddor yr ASB o weithredu mewn modd agored a thryloyw, cyhoeddir yr adroddiad monitro blynyddol hwn ar ein gwefan gyhoeddus www.food.gov.uk/cy

## Adolygu a Diwygio’r Cynllun

**7.25** Byddwn ni’n adolygu’r Cynllun hwn o fewn tair blynedd iddo ddod i rym. Hefyd, o bryd i’w gilydd, efallai y bydd gofyn i ni adolygu’r Cynllun hwn, neu gynnig gwelliannau iddo, oherwydd newidiadau i’n swyddogaethau, neu i’r amgylchiadau y byddwn ni’n ymgymryd â’r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni fyddwn ni’n newid y Cynllun hwn mewn unrhyw ffordd heb geisio cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg gyntaf.

# 8 Y GYMRAEG A'N GWEITHLU

**8.1** Mae gan y mesurau yn y Cynllun hwn **awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth** lawn ein sefydliad. Rheolwyr sydd â'r cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

**8.2** Er mwyn hwyluso a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithlu, ac i wella'r ddealltwriaeth, y ddarpariaeth a'r mesurau i hyrwyddo'r iaith, byddwn ni'n:

- cynnwys y Gymraeg fel rhan o raglen sefydlu corfforaethol yr ASB i'w chyflwyno i bob aelod newydd o staff ar draws yr ASB
- trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer timau penodol sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru i gynyddu ymwybyddiaeth o ofynion a chyfrifoldebau dwyieithog
- cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg i'n staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun diwygiedig hwn
- creu a dosbarthu pecyn cymorth ar gyfer staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac o fewn eu gwaith
- cynhyrchu geirfa a llyfryn o ymadroddion ar gyfer cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg, ac i hwyluso ac annog siaradwyr di-Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith

**8.3** Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn asesu sgiliau Cymraeg gweithwyr yng Nghymru.

**8.4** Bydd cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff, yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun hwn.

**8.5** Rydym ni'n annog staff i siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl ac yn cefnogi staff i wella eu sgiliau iaith, p'un a ydynt yn ddysgwyr neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Byddwn ni'n meithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a byddwn ni'n chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein staff (er enghraifft Diwrnod Shw Mae, Su Mai, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Santes Dwynwen ac ati).

**8.6** Mae gennym ni Uned Iaith Gymraeg fewnol benodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Pennaeth Cymorth Busnes Cymru yw'r swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Cyfarwyddwr ASB Cymru yw Hyrwyddwr y Gymraeg. O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, Prif Weithredwr yr ASB sy'n atebol am y Cynllun.

**8.7** Rydym ni wedi paratoi cynllun gweithredu manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan nodi sut y byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn. Byddwn ni'n

diweddaru'r Cynllun Gweithredu hwn yn barhaus. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

**8.8** Caiff y Cynllun ei hyrwyddo i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i gyhoeddir ar ein gwefan, a gwefan Comisiynydd y Gymraeg.

**8.9** Byddwn ni'n cynnal unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'n cael ei gwmpasu'n benodol yn y Cynllun hwn mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y Cynllun hwn.

# ATODIAD A – SYSTEM BLAENORIAETHU CYFIEITHU

Canllawiau i staff yr ASB ar ba ddogfennau y dylid eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Ni fydd y System Flaenoriaethu yn rhestru pob math o ddogfen a grëir gan yr ASB. Os na allwch ddod o hyd i ddisgrifiad addas yn y rhestrau isod, cysylltwch â'r Uned Iaith Gymraeg sydd bob tro yn fwy na pharod i helpu:

Ffôn: 029 2067 8970
e-bost: welsh.language@food.gov.uk

## Categori A – Angen eu cyfieithu

- Adroddiad Blynyddol Cymru
- Adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Agendâu (ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru)
- Cofnodion ar gyfer cyfarfodydd agored yng Nghymru
- Cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasu – negeseuon, adnoddau cyfryngau cymdeithasu, GIFs
- Datganiadau i'r wasg ac eitemau newyddion (oni bai eu bod yn berthnasol i Loegr neu Ogledd Iwerddon yn unig)
- Deunyddiau addysgol ar gyfer ysgolion yng Nghymru
- Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft stondin gorfforaethol mewn digwyddiadau, taflenni gwybodaeth, sticeri, posteri, nwyddau
- Ffurflenni cais ar gyfer cynlluniau'r ASB sy'n gweithredu yng Nghymru
- Ffurflenni i'r cyhoedd/diwydiant yng Nghymru nad ydynt yn dechnegol
- Gohebiaeth at awdurdodau lleol drwy'r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu
- Gohebiaeth safonol (pethau fel llythyrau/negeseuon e-bost) i randdeiliaid yng Nghymru
- Gwahoddiadau i randdeiliaid yng Nghymru
- Gwefannau cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr
- Gwefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a deunydd cysylltiedig, gan gynnwys adroddiadau blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Holiaduron/arolygon i'r cyhoedd yng Nghymru
- Hysbysebion ar gyfer y wasg yng Nghymru
- Hysbysebion swyddi/pecynnau ymgeiswyr/gohebiaeth ar gyfer swyddi yng Nghymru
- Llythyrau ymgynghori
- Ymgynghoriadau ar ran Llywodraeth Cymru
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd

## Categori B – Angen defnyddio'r System Sgorio – cysylltwch â'r Uned Iaith

- Adroddiadau ac adroddiadau blynyddol
- Atodiadau i bapurau pwyllgor
- Atodiadau i lythyrau
- Bwletinau a datganiadau ystadegol
- Canllawiau
- Codau Ymarfer
- Dogfennau Ymchwiliad Cyhoeddus
- Dogfennau ymgynghori
- Memoranda eglurhaol
- Strategaethau
- Ymatebion swyddogol i adroddiadau ac ati
- Ymchwil sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru



## Categori C – Dim angen cyfieithu

- Between the Lines (neu gyhoeddiadau mewnol eraill)
- Deunyddiau a gyflenwir gan gyrff neu unigolion eraill
- Deunydd Yammer
- Dogfennau contract
- Drafftiau gwaith
- Eitemau i'w cylchredeg yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn unig
- Fframweithiau gwasanaeth
- Gwybodaeth fewnol a ryddheir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Mewnrwyd/Digital Workplace
- Papurau a gyflenwir gan drydydd parti nad ydynt dan gontract
- Papurau ymchwil
- Rhybuddion – rhybuddion alergedd, rhybuddion tynnu a galw bwyd yn ôl (bydd y rhain yn aml yn cael eu cyhoeddi ar frys ac felly yn Saesneg yn unig)
- Y cyfrifon

# ATODIAD B – SAFONAU GWASANAETH YR UNED IAITH GYMRAEG

## Mae'r canllawiau hyn yn manylu ar lefel y gwasanaeth y gallwch ei disgwyl gan Uned Iaith Gymraeg yr ASB.

**1 Gwasanaeth cyfieithu**

Rydym ni'n ymroi i ddarparu gwasanaeth cyfieithu sydd o safon uchel, yn ymatebol ac yn hygyrch i holl staff yr ASB. I gyflawni hyn, byddwn ni'n:

- Sicrhau cynnwys Cymraeg o'r ansawdd uchaf drwy gadw at egwyddorion Cymraeg Clir, cronfa ddata derminoleg Llywodraeth Cymru (Byd Term Cymru) a'n terminoleg fewnol ni sydd wedi'i safoni
- Cyfieithu'r holl ddogfennau y gwnaed cais amdanynt o fewn amserlen realistig ac sy'n gweithio i bawb
- Cynnig cyngor ar gynulleidfa darged ac ymgysylltu â defnyddwyr
- Lanlwytho holl gynnwys Cymraeg i food.gov a gwefannau eraill yr ASB




- Creu a rheoli'r holl gynnwys ar gyfer tudalennau cyfryngau cymdeithasu'r ASB
- Talu'r holl gostau cyfieithu (NID yw hyn yn cynnwys costau cysodi, dylunio a chyhoeddi)
- Datblygu cronfa ddata derminoleg ein hunain a safoni termau newydd yn rheolaidd

**Wrth wneud hyn, gofynnwn i chi, y cwsmer, gydymffurfio â'r safonau canlynol:**

- Rhoi dyddiad targed realistig (i'w drafod â'r Uned Iaith), yn unol â'r canllawiau canlynol:

  Digon o rybudd, a thynnu sylw at waith cyfieithu o leiaf 24 awr ymlaen llaw, gyda'r amseroedd a nodir isod:

  – Hyd at 500 gair – 2-3 awr

  – 1,000 – 2,000 – 1 diwrnod

  – 2,000 o eiriau – o leiaf 2 ddiwrnod gwaith (am bob 2,000 gair)

- Darparu'r holl wybodaeth/dogfennau perthnasol i hwyluso'r cyfieithu mewn fformat addas (dogfennau Word pan fo'n bosibl). Darparu

graffiau ac ati mewn fformat y gellir ei olygu

- Darparu'r dogfennau yn eu fersiynau terfynol, wedi'u cymeradwyo. Os oes unrhyw newidiadau, dylid tracio'r rhain yn glir i sicrhau effeithlonrwydd. Os nad yw diwygiadau'n cael eu tracio, bydd y ddogfen yn cael ei thrin fel cais newydd, a bydd hyn yn effeithio ar y dyddiad targed

**2 Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd**

Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn:

- Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r ansawdd uchaf o'r Gymraeg i'r Saesneg drwy ddefnyddio'r derminoleg a ddatblygir gan yr Uned Iaith
- Darparu offer cyfieithu ar y pryd yn yr holl gyfarfodydd perthnasol
- Gosod yr holl offer, gan sicrhau bod yr holl offer yn gweithio'n iawn ac wedi'u gwefru. Byddwn hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r clustffonau
- Trefnu ein trafnidiaeth a'n llety ein hunain fel sy'n briodol

**Er mwyn ein helpu ni i gyrraedd y safonau hyn, rydym ni'n gofyn i chi:**

- Roi gwybod i ni ymlaen llaw am unrhyw anghenion cyfieithu ar y pryd – dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl (dim hwyrach na 48 awr)
- Trefnu bod gan yr Uned Iaith gopïau o'r holl waith papur perthnasol ymlaen llaw er mwyn cynorthwyo â'r cyfieithu
- Trefnu lleoliad gan sicrhau bod yr ystafell/cyfleusterau'n addas ar gyfer cyfieithu ar y pryd (hynny yw digon o le, acwsteg ac ati)

**3 Gwasanaeth prawfddarllen/gwirio yr Uned Iaith Gymraeg**

Bydd yr Uned Iaith Gymraeg yn:

- Darparu gwasanaeth prawfddarllen a gwirio trylwyr a manwl
- Prawfddarllen yr holl ddogfennau y gwnaed cais amdanynt o fewn amserlen y cytunwyd arni (lle bo'n bosibl)
- Cydweithio â'r cysodwyr/dylunwyr – diwygio a gwirio yn ôl yr angen
- Cymeradwyo fersiynau terfynol â'r cysodwyr/dylunwyr a rhoi gwybod i'r unigolyn/adran berthnasol

**Yn eich tro, gofynnwn i chi:**

- Dalu am yr holl gostau dylunio a chysodi
- Anfon dogfennau terfynol wedi'u cymeradwyo **yn unig** i'w prawfddarllen
- Sicrhau bod yr holl fanylion argraffu yn gywir



Os ydych chi angen yr wybodaeth hon mewn fformat arall – megis sain, print bras, Braille – cysylltwch â ni.

029 2067 8970

welsh.language@food.gov.uk

neu ysgrifennwch at:

Rheolwr y Gymraeg
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood St
Caerdydd
CF10 1EW

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd drwy www.food.gov.uk neu gan y cyswllt a roddir uchod.

This document is also available in English on www.food.gov.uk or from the contact given above.

Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle rydym ni wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.